Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-2025 Dyfed-Powys

## Cadw Cymunedau Dyfed-Powys yn Ddiogel

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Fy Ngweledigaeth: Cadw Cymunedau Dyfed-Powys yn ddiogel** | **4** |
| **Fy Mlaenoriaethau ar gyfer Plismona a Throseddu** | **5** |
| Blaenoriaeth 1: Cefnogi dioddefwyr | 5 |
| Blaenoriaeth 2: Atal niwed | 8 |
| Blaenoriaeth 3: Sicrhau system gyfiawnder fwy effeithiol | 10 |
| **Gwerthoedd** | **13** |
| Cydweithio | 13 |
| Bod yn Atebol | 14 |
| Bod yn Gynaliadwy | 15 |
| Ymgysylltu'n Eang | 16 |
| **Adnoddau** | **18** |
| **Y gwasanaethau rwy'n eu comisiynu** | **20** |
| **Sut allwch chi fy nghefnogi i wireddu'r Cynllun hwn** | **22** |
| Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd | 21 |
| Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid | 22 |
| Panel Sicrhau Ansawdd | 22 |
| Llysgenhadon Ifanc | 22 |
| Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr | 23 |
| **Cyd-destun** | **24** |
| Ein hardal | 23 |
| Ein pobl | 23 |
| Rolau a chyfrifoldebau | 24 |
| **Ynghylch y Cynllun hwn** | **25** |

# Rhagair

Rwy'n ymfalchïo yn y ffaith fy mod i wedi fy ethol fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu am ail dymor. Byddaf yn parhau i ddatblygu perthynas waith agos â holl gymunedau'r ardal ddaearyddol eang y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei gwasanaethu. Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws pedair ardal Awdurdodau Unedol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys a Sir Benfro wedi bod yn flaenoriaeth i mi erioed, a bydd yn parhau'n flaenoriaeth imi. Rwy'n gwbl ymrwymedig o hyd i roi llais cryf i'r cyhoedd er mwyn llunio ei wasanaeth plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn rhan anhepgor o'n cymunedau, ac mae'r berthynas unigryw hon yn hollbwysig. Mae'n rhaid i'r cyhoedd barhau'n ganolog i bob dim a wnawn a phob penderfyniad a wnawn. Mae'n bwysig bod tystiolaeth gadarn yn sail i'n holl weithredoedd a'n buddsoddiadau, a thrwy harneisio'r defnydd a wnawn o dechnoleg a data i lunio ein gwasanaethau, rwy'n siŵr y bydd modd cyflwyno gwelliannau pellach er mwyn sicrhau diogelwch ein hardal.

Fel yr 'Hyrwyddwr Dioddefwyr' lleol, mae'r gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr yn flaenoriaeth, a dylent fod wrth galon popeth a wna'r Heddlu a'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol yn ein hardal. Rhaid deall hawliau dioddefwyr a'u cyflawni'n llawn, gan sicrhau bod gwasanaethau wir yn canolbwyntio ar ddioddefwyr.



Rwyf am sicrhau nad yw cymunedau ac unigolion, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, yn cael eu niweidio gan droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd gweithio mewn ffordd sy'n ceisio datrys problemau o fewn ein cymunedau'n sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau. Mae'n hollbwysig bod yr adnoddau hyn yn weladwy, o fewn cyrraedd i bawb ac am wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r cyhoedd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Dim ond drwy gydweithio ar draws y sector cyhoeddus a gydag arbenigwyr pwnc o fewn ein Gwasanaethau Comisiwn y gellir cyflwyno system cyfiawnder troseddol effeithiol. Bydd rhoi cyfleoedd a grym i wirfoddolwyr a'r trydydd sector fod yn rhan ganolog o'r system cyfiawnder troseddol yn cryfhau ein hymateb ymhellach, a byddaf yn parhau i sicrhau'r amgylchiadau er mwyn i hyn ffynnu.

Drwy'r Cynllun hwn, rwyf wedi gosod y cyfeiriad strategol ac amlinellu blaenoriaethau. Yn hollbwysig, mae hwn yn gynllun dynamig a fydd yn esblygu ac yn addasu i'r heriau dros y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyfiawnder troseddol a phlismona'n parhau'n berthnasol ac yn ystyried y cyd-destun y maent yn gweithredu o fewn iddo. Rwy'n hyderus y bydd gweithio mewn partneriaeth yn arwain at well gwasanaeth i chi'r cyhoedd, ac edrychaf ymlaen at eich gwasanaethu fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu am dymor arall.



**Dafydd Llywelyn**
Comisiynydd Heddlu a Throseddu

# Fy Ngweledigaeth: Cadw Cymunedau Dyfed-Powys yn ddiogel

Fy ngweledigaeth gynhwysfawr ar gyfer 2021-25 yw cadw cymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ddiogel, gan gynnal ymddiriedaeth a hyder yn ein Heddlu a chyfiawnder troseddol.

Mae hyn yn golygu:

**1**

Ein bod yn cadw ein cymunedau'n ddiogel, gan eu cefnogi pan fydd achosion o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**2**

Bod ein gwasanaethau o fewn cyrraedd i bob cymuned, gan gydnabod amrywiaeth a'r iaith Gymraeg.

**3**

Ein bod yn ymdrin â phroblemau sy'n achosi niwed cymunedol sylweddol, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod a merched ac iechyd meddwl, o safbwynt iechyd cyhoeddus.

**4**

Ein bod yn darparu system blismona a chyfiawnder sy'n diwallu anghenion ein cymunedau o ran atal troseddu, yn diogelu'r cyhoedd ac yn adeiladu gwydnwch.

**5**

Bod ein hymgysylltiad ystyrlon, pellgyrhaeddol â'r cyhoedd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi fy ymrwymiadau i gyfrannu at fy Ngweledigaeth. Rwy'n rhagweld y bydd y Prif Gwnstabl yn amlinellu sut y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn eu tro yn cyfrannu drwy eu Cynllun Cyflawni. Ni ellir cyflawni gwir newid fodd bynnag ar ein pen ein hunain, yn enwedig ar draws ein system gyfiawnder gymhleth. Byddaf hefyd felly, yn annog partneriaid i ystyried sut y gall ein hymdrechion ar y cyd â'n gilydd helpu i wella gwasanaethau i'n cymunedau.

Byddaf yn defnyddio nifer o fesurau meintiol ac ansoddol i nodi'r cynnydd a wnawn gyda'n gilydd yn erbyn y deilliannau hyn ac yn rhoi diweddariadau i'r Panel Heddlu a Throseddu. Bydd yr wybodaeth hefyd ar gael i'w gweld ar fy ngwefan.



# Fy Mlaenoriaethau ar gyfer Plismona a Throseddu



## BLAENORIAETH 1: Cefnogi dioddefwyr

Rwyf am sicrhau bod dioddefwyr trosedd yn cael eu cydnabod a'u cefnogi, gan deilwra ymatebion i'w hanghenion unigol.

### Pam mae hyn yn bwysig?

> *"Y gobaith yw mai Gosod Dioddefwyr fel canolbwynt yw'r ffordd ymlaen ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys. Dyna lle y byddech yn dymuno i'r Heddlu fod, ac os mai dyna lle'r ydych chi'n symud tuag ato fel Llu, mae'n dda clywed hynny."*

Un o gyfranwyr y grŵp ymgynghorol 'Llai o Lais'

- Mae dyletswydd ar fy mhartneriaid a minnau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd a'r Siarter Tystion.
- Mae gennyf ddyletswydd statudol i ddiogelu plant a phobl ifanc a hyrwyddo eu lles.
- Dywedodd preswylwyr wrthyf mai'r agweddau pwysicaf ar ein ffordd o ymateb i ddioddefwyr yw bod y dioddefwr yn derbyn gwybodaeth bwrpasol am yr hyn sy'n digwydd nesaf a'r cymorth sydd ar gael wrth adrodd am drosedd, yn ogystal â chael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi nodi bod dal angen llawer iawn o adnoddau er mwyn mynd i'r afael â'r galw o ran diogelu (yn arbennig yn achos Cam-drin Domestig).
- Disgwylir y bydd ardal Heddlu Dyfed-Powys yn gweld cynnydd o 20-28% yn y boblogaeth sy'n heneiddio gyda chynnydd o 64% yn nifer y bobl dros 65 oed sy'n byw gyda dementia yng Nghymru erbyn 2035.
- Disgwylir y bydd y galw mewn perthynas â throseddau rhywiol yn parhau i gynyddu.
- Mae gan Heddlu Dyfed-Powys un o'r cyfraddau uchaf yn nifer y dioddefwyr sy'n tynnu'n ôl o'r broses cyfiawnder troseddol, sef 37.3%. Mae hyn 14.7% yn uwch na'r gyfradd genedlaethol.





- Mae Heddlu Dyfed-Powys yn rhagweld cynnydd o ran nifer yr achosion lle caiff plant eu hecsbloetio, materion diogelu ar-lein a thrais yn erbyn plant (mewn perthynas â Dileu'r Amddiffyniad o Gosb Resymol).
- Yn 2020, roedd 42% o achosion o dreisio yn ymwneud â phlant.
- Ar gyfartaledd, mae 10% o ddioddefwyr yn iau na 18 oed adeg y drosedd. Mae 22% yn 25 oed neu iau.
- Cyfeiriwyd dros 27,000 o ddioddefwyr ac unigolion agored i niwed at wasanaethau a gomisiynwyd gennyf yn 2020-21. Mae hyn yn cynnwys Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol, Eiriolwyr Trais Rhywiol Annibynnol, cymorth ar gyfer dioddefwyr a thystion, gwasanaeth dibriffio ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod ar goll, a gwasanaethau troseddau ieuenctid ac atal.
- Dywedodd 58% o'r dioddefwyr a holwyd eu bod nhw'n fodlon â'u profiad o'r gwasanaeth gan Heddlu Dyfed-Powys[1].
- Nod Plismona yng Nghymru yw lleihau effeithiau negyddol troseddu drwy amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, a sicrhau bod system gynhwysfawr o gymorth ar gael i ddioddefwyr troseddu a bod y cymorth hwnnw yn cael ymateb cadarnhaol.
- Argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru y dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru fod yn gyfrifol am sicrhau bod hawliau dioddefwyr yn cael eu parchu, a bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno mewn modd priodol i ddioddefwyr.
- Byddwn yn parhau i gyfrannu at y Nod Lles Cenedlaethol o fod "yn Gymru iachach: cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael ei uchafu, a lle y deellir dewisiadau ac ymddygiadau sy'n elwa iechyd yn y dyfodol."
- Mae Llywodraeth y DU wedi amlinellu ei blaenoriaeth o weld gwelliant yng nghyfraddau bodlonrwydd dioddefwyr.
- Un o flaenoriaethau strategol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ar gyfer 2021-22 yw lleihau nifer y dioddefwyr a gafodd eu hecsbloetio. Mae hyn yn cynnwys Cam-drin Plant yn Rhywiol, Ecsbloetio Plant, Caethwasiaeth Fodern, Masnachu Mewn Pobl, a Throseddau Mewnfudo Cyfundrefnol.

## Beth mae llwyddiant yn ei olygu?

**1** Cofnodi troseddau yn gywir a darganfod dioddefwyr.

**2** Diogelu rhag niwed ac erledigaeth dro ar ôl tro.

**3** Gwrando ar farn dioddefwyr a rhoi profiad cadarnhaol iddynt beth bynnag fo'r canlyniad.

**4** Cyflawni ein rhwymedigaethau i'r Siarter Tystion a'r Cod Dioddefwyr.

**5** Comisiynu gwasanaethau i helpu dioddefwyr i ymdopi ac adfer eu hunain.

[1] Cafwyd 142 o ymatebion i 3,420 o arolygon a anfonwyd allan rhwng 10/2/21 a 19/9/21. Roedd 38 yn gwbl fodlon, roedd 26 yn fodlon iawn, ac roedd 19 yn weddol fodlon.

## Sut y byddwn ni'n cyflawni hyn?


**Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:**

- Sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael i fodloni anghenion pob dioddefwr.
- Buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n cefnogi plant sy'n ddioddefwyr ac atal neu leihau'r perygl y byddant yn cael eu hecsbloetio.
- Blaenoriaethu buddsoddi mewn gwasanaethau i ddioddefwyr troseddau rhywiol difrifol a throseddau casineb.
- Cefnogi Rhaglen Ysgolion Cymru i wella'r ddealltwriaeth o drais yn erbyn menywod a merched.
- Siarad ar ran dioddefwyr, tystion, a'r bobl hynny sy'n agored i niwed, nad yw eu llais bob amser yn cael ei glywed.
- Hyrwyddo'r defnydd o safleoedd i ddarparu tystiolaeth o bell er mwyn sicrhau lle diogel â chymorth i ddioddefwyr a thystion.
- Parhau i gomisiynu cymorth arbenigol ar gyfer dioddefwyr trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais domestig a thrais rhywiol.
- Parhau i gefnogi'r cynnydd a wnaed o ran creu Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol rhanbarthol.
- Lobïo i newid deddfwriaeth Cymru i ganiatáu creu un llwybr di-dor o archwiliadau iechyd a fforensig ar gyfer dioddefwyr ymosodiadau rhywiol.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â phrinder gwasanaethau paediatrig ar gyfer ymosodiadau rhywiol.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu llwybr cymorth ar gyfer dioddefwyr trosedd ifanc.
- Gweithio gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr i gryfhau llais y dioddefydd yn ardal Dyfed-Powys.
- Cyflwyno Hyrwyddwr Dioddefwyr ar gyfer Dyfed-Powys a fydd yn gweithio gyda fy Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr fel sylfaen i wella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu.

## Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi llwyddo?

**Byddaf yn gofyn i'r Prif Gwnstabl, ein partneriaid a'm swyddfa ddangos eu bod yn gwneud y canlynol:**

1) Ymateb yn effeithlon ac effeithiol i alwadau'r cyhoedd am help.
2) Dysgu o brofiad goroeswyr fel sylfaen i fabwysiadu dulliau gweithredu yn y dyfodol.
3) Datrys cwynion yn effeithiol.
4) Arloesi i greu mwy o gyfleoedd i ddioddefwyr gofnodi eu profiadau.
5) Creu gweithlu mwy amrywiol sy'n cynrychioli ein cymunedau.
6) Canfod pa mor dda y mae dioddefwyr troseddau rhywiol difrifol a throseddau casineb yn cael eu cefnogi.
7) Lleihau niferoedd y dioddefwyr sy'n ymddieithrio neu'n tynnu'n ôl o'r system cyfiawnder troseddol.





# BLAENORIAETH 2: Atal niwed

Rwyf am sicrhau nad yw cymunedau ac unigolion, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, yn cael eu niweidio gan droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Pam mae hyn yn bwysig?

- Dywedodd y cyhoedd a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys mai gweithio gyda throseddwyr i'w dargyfeirio rhag ymddygiad troseddol oedd y trydydd mesur ataliol pwysicaf; y ddau fesur cyntaf oedd addysgu pob unigolyn ifanc am beryglon a chanlyniadau troseddu, a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol.
- Mae gan Gomisiynwyr a phartneriaid ddyletswydd i gydweithio er mwyn atal a mynd i'r afael â throsedd, i leihau trosedd ac anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, aildroseddu a chamddefnyddio sylweddau.
- Mae blaenoriaethau Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cymru Gyfan ac mae ganddo gynllun cyflenwi lleol er mwyn sicrhau bod canlyniadau wedi'u teilwra i'n cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar ddioddefwyr, troseddwyr, ymyrraeth gynnar ac atal a chydraddoldeb hiliol.
- Mae atal niwed a chydweithio ag eraill er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n symbylu niwed yn flaenoriaeth gan Plismona yng Nghymru. Nodwyd y canlynol ymhlith y ffactorau hynny: camddefnyddio sylweddau, (gan gynnwys alcohol), trais (gyda phwyslais arbennig ar drais domestig a cham-drin a thrais rhywiol, yn ogystal â thrais sy'n gysylltiedig â gweithgarwch troseddol), iechyd meddwl ac argyfyngau personol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a phob math o gam-drin ac ecsbloetio.
- Mae Cyfiawnder Adferol yng Nghymru yn ymrwymedig i sicrhau y dylai ymyrraeth gynnar ac atal fod yn flaenoriaethau strategol ar gyfer pob sefydliad Cyfiawnder Troseddol.
- Blaenoriaeth Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yw datblygu ein defnydd o gamau ataliol cynnar a dulliau o ddatrys problemau er mwyn lleihau digwyddiadau yn ein cymuned.

## Beth mae llwyddiant yn ei olygu?

**1** Gwasanaethau plismona gweladwy a rhagweithiol, yn y byd ffisegol a seiber.

**2** Mabwysiadu dulliau o ymyrryd a datrys problemau yn gynnar i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**3** Ymdrin â phroblemau sy'n achosi niwed cymunedol sylweddol, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod a merched ac iechyd meddwl, o safbwynt iechyd cyhoeddus.

**4** Hyrwyddo dull o weithio sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn ac sy'n cydnabod pa mor agored i niwed yw plant a phobl ifanc er mwyn gwella eu cyfleoedd bywyd.

**5** Gwella diogelwch ar y ffyrdd drwy fynd i'r afael â phump achos pennaf gwrthdrawiadau ac anafiadau traffig ar y ffyrdd yng Nghymru (5 Angheuol).

## Sut y byddwn ni'n cyflawni hyn?

**Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:**

- Annog creu gwasanaethau adferol ystyrlon a chynaliadwy sy'n briodol ar gyfer yr oedran gofynnol, gan fod yn ystyriol o anghenion y rhai sy'n cymryd rhan. Gallai hyn gynnwys mabwysiadu mesurau adferol mewn addysg; defnyddio lleoliadau teuluol a chymunedol ar gyfer mesurau ataliol a chymorth parhaus; a threfniadau neu waredіadau y tu allan i'r llys i ddargyfeirio oedolion ifanc rhag y system cyfiawnder troseddol, fel rhan o ddedfrydau cymunedol ac ochr yn ochr â dedfrydau o garchar.
- Parhau i gefnogi gwaith y Glasbrint Troseddwyr Benywaidd gan sicrhau bod anghenion penodol menywod yn cael eu cydnabod o fewn y System Cyfiawnder Troseddol.
- Gweithio i gadw pobl ifanc allan o'r system cyfiawnder troseddol drwy hyrwyddo model plismona sy'n seiliedig ar drawma ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Yn benodol, byddaf yn cefnogi cyflwyno a gweithredu protocol cenedlaethol i leihau troseddoli niferoedd anghymesur o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a chydfuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol.
- Gweithio ar yr agenda ar gyfer gorddos angheuol a gorddos heb fod yn angheuol, gan gynnwys datrysiadau amgen i driniaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau.
- Herio'r fframwaith deddfwriaethol mewn perthynas â chamddefnyddio cyffuriau.

## Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi llwyddo?

**Byddaf yn gofyn i'r Prif Gwnstabl, ein partneriaid a'm swyddfa i ddangos y canlynol:**

1) Gostyngiad mewn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mhob cymuned.

2) Gostyngiad mewn trais yn erbyn menywod a merched.

3) Gostyngiad yn y bygythiad o Droseddau Cyfundrefnol Difrifol ac Ecsbloetio.

4) Creu cymunedau mwy diogel drwy leihau ofn troseddu.

5) Gwrando ar flaenoriaethau'r gymuned leol ac ymateb iddynt.

6) Datblygu perthynas â phobl ifanc drwy ymgysylltu â nhw a sefydlu fforwm ar eu cyfer.

7) Cyflwyno gwasanaethau atal ar gyfer pobl ifanc sy'n effeithiol o ran lleihau risg a niwed.

8) Canfod pa mor effeithiol yw Heddlu Dyfed-Powys o ran amddiffyn pobl sy'n agored i niwed.

9) Eu heffaith yn erbyn y Pump Angheuol.





# BLAENORIAETH 3: Sicrhau system gyfiawnder fwy effeithiol

Rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid, cymunedau a dioddefwyr i wella hyder yn y system cyfiawnder troseddol.

> *“Mae pobl Cymru yn cael eu siomi gan y system [cyfiawnder troseddol] yn ei chyflwr presennol... er gwaethaf gwelliant i'r ffordd y caiff dioddefwyr eu trin, mae angen gwneud llawer mwy i'w cynnwys yn y system gyfiawnder.”*
>
> Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019

## Pam mae hyn yn bwysig?

- Mae dyletswydd statudol arnaf i sicrhau y darperir system cyfiawnder troseddol effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal ein heddlu. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid imi weithio'n agos gyda phartneriaid ar draws y system cyfiawnder troseddol i eiriol dros newid a dylanwadu ar newid.
- O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae'n rhaid imi gefnogi ymdrechion ar y cyd i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb; a meithrin perthynas dda rhwng pobl â'i gilydd.
- Dywedodd y cyhoedd a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys mai mynediad cyfartal at gyfiawnder sydd bwysicaf, ac mai erlyn sydd leiaf pwysig. Mae grwpiau sydd â llai o lais hefyd yn dweud bod cael eu clywed, eu deall a'u parchu'n bwysig dros ben.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys yn rhagweld y bydd nifer cynyddol o droseddwyr angen eu rheoli – roedd 8% o bobl o dan amheuaeth o gyflawni trosedd yn 2021 yn iau na 18 oed; gyda 20% yn 25 oed neu iau. Dros y pedair blynedd diwethaf, ar gyfartaledd, roedd 5% o bobl a gafodd eu cadw yn y ddalfa'n iau na 18 oed gyda 30% yn iau na 30 oed.
- Dros y pedair blynedd diwethaf, ar gyfartaledd:
  - Gan amlaf, mae achosion o ladrad a throseddau rhywiol yn cymryd mwy o amser i'w cwblhau na mathau eraill o droseddau. Cymerir dros 100 diwrnod i ddod i ganlyniad mewn 26% o achosion o ladrad a 38% o achosion yn ymwneud â throseddau rhywiol.
  - Nid yw'n fawr o syndod mai ‘canlyniad 16’ yw'r canlyniad mwyaf cyffredin ar gyfer troseddau rhywiol (ni cheir cefnogaeth y dioddefwr er bod rhywun dan amheuaeth wedi'i enwi).
  - Mewn achosion o ladrad, mae 20% yn arwain at gyhuddiad, ond ni chaiff neb ei enwi dan amheuaeth o gyflawni'r drosodd mewn 19% o achosion, ac mewn 18% o achosion, ni cheir cefnogaeth y dioddefwr er bod unigolyn dan amheuaeth wedi'i enwi.
  - Troseddau Trais yn erbyn y Person yw'r troseddau sy'n cael eu cofnodi amlaf, ac mae 30% yn cael eu cwblhau o fewn mis. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, mae 48% o'r rhain yn cael eu terfynu am fod y dioddefwr yn gwrthod cefnogi camau gweithredu pellach, er bod unigolyn dan amheuaeth wedi'i enwi.



- Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020-21:
  - Roedd unigolion o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu chwilio gan swyddogion Heddlu Dyfed-Powys na phobl groenwyn.
  - Gwnaeth 23.9% o bob chwiliad a wnaed gan swyddogion Heddlu Dyfed-Powys arwain at ddarganfyddiad a oedd yn cyfateb â'r rheswm gwreiddiol dros y chwiliad.
  - Cynhelir y rhan fwyaf o chwiliadau ar bobl sy'n iau na 25 oed.
- Mae Plismona yng Nghymru wedi gosod uchelgais inni gyfrannu mewn modd effeithiol at gyflawni Datganiad o Ddiben 2020-2030 Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Mae'r grwp hefyd yn cynllunio i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid Cyfiawnder Troseddol i ystyried yr oblygiadau ymarferol a fyddai'n deillio o gyflwyno'r argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru, sy'n ceisio diwygio'r system gyfiawnder a'r cynllun datganoli presennol i gyflwyno cyfiawnder yng Nghymru ar gyfer pobl Cymru.
- Adlewyrchir hyn yn ein Nod Lles Cenedlaethol: *"Cymru Fwy Cyfartal: cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, waeth pa beth bynnag yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau."*
- Nod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yw cefnogi integreiddio a chysylltu gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol ar lefel leol.

## Beth mae llwyddiant yn ei olygu?

**1** Gwella ymchwiliadau troseddol o ran eu safon a'r amser a gymerir i'w cwblhau.



**2** Canlyniadau cyfiawnder troseddol mwy llwyddiannus, yn enwedig mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched.



**3** Cydnabod pa mor agored i niwed yw plant yn y system cyfiawnder troseddol, fel dioddefwyr a rhai sy'n cyflawni trosedd.



**4** Llai o aildroseddu drwy ymyriadau wedi'u targedu a gorchmynion ataliol.



**5** Gwell ymddiriedaeth a hyder gan y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol drwy ganfod barn dioddefwyr, cyflwyno cyfiawnder adferol priodol ac asesu anghymesuredd o fewn y system.





## Sut y byddwn ni'n cyflawni hyn?

**Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:**

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ffordd o weithio wedi'i theilwra gydag oedolion ifanc sy'n cyflawni troseddau lefel isel, gan sicrhau bod yr unigolion hyn yn medru cael eu dargyfeirio'n ddiogel ac yn fwy effeithiol rhag y system cyfiawnder troseddol. Bydd hyn yn cynnwys rhoi arian grant i sefydliadau bach fel eu bod nhw'n medru bodloni dyheadau ac anghenion amrywiol oedolion ifanc mewn ffyrdd creadigol.
- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r defnydd a wneir o fesurau adferol yn ystod pob cam o'r system cyfiawnder troseddol.
- Gweithio gyda phartneriaid i gomisiynu cymorth priodol er mwyn helpu oedolion ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol i adeiladu hyder, penderfynu ar dargedau o ran gyrfa a chael eu hyfforddi, eu datblygu a chael swydd yn unol â'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid.
- Cefnogi partneriaid sy'n darparu cymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n pontio rhwng y gwasanaeth troseddau ieuenctid a'r gwasanaeth prawf.
- Ymgyrchu i ddod â'r stigma gydol oes o gofnodion troseddol a gafwyd adeg plentyndod i ben. Byddaf yn lobïo Llywodraeth y DU i gysoni ein system cofnodion troseddol â chenhedloedd eraill Ewrop, gan gynnwys yr Alban, gan godi oed cyfrifoldeb troseddol o ddeng mlwydd oed i ddeuddeg mlwydd oed o leiaf.
- Galw ar ddyletswydd statudol partneriaid eraill i ddarparu cymorth priodol ar gyfer pobl ifanc.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi ymateb i argymhellion allweddol adroddiad y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru.
- Gwella ein dull o gasglu data er mwyn deall sut y caiff dioddefwyr eu trin yn anghyfartal yn y system cyfiawnder troseddol a mynd i'r afael â hyn.
- Cyfrannu'n effeithiol at gyflenwi Datganiad o Ddiben 2020-2030 Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.
- Parhau i hybu blaenoriaethau ein Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a hyrwyddo cydweithio ledled Cymru rhwng cyrff cyfiawnder troseddol.
- Cefnogi Rhaglen Integredig ar gyfer Rheoli Troseddwyr yng Nghymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i ddarparu fframwaith ar gyfer y rheini sydd mewn perygl o droseddu.
- Gwella'r newid rhwng y cymorth a ddarperir i droseddwyr tra byddant yn y carchar a'r hyn sydd ar gael yn y gymuned.
- Gweithio gyda phartneriaid i wella'r gefnogaeth a roddir i droseddwyr cam-drin domestig a'u dioddefwyr a'u teuluoedd.
- Cefnogi Heddlu Dyfed-Powys i wella'r ymwybyddiaeth o bŵer yr heddlu i Stopio a Chwilio a chyfreithlondeb y defnydd a wneir ohono.

## Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi llwyddo?

**Byddaf yn gofyn i'r Prif Gwnstabl, ein partneriaid a'm swyddfa i ddangos y canlynol:**

1) Gostyngiad yn nifer yr achosion sydd wedi cronni yn y system cyfiawnder troseddol.

2) Defnydd yn cael ei wneud o graffu annibynnol i fynd i'r afael ag anghymesuredd.

3) Arloesi i wella profiad dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol.

4) Gostyngiad yn nifer y rhai sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf.

5) Llai o droseddwyr benywaidd yn cael dedfrydau o garchar.

6) Lleihad mewn aildroseddu.

7) Dull adferol yn cael ei gynnig fel mater o drefn ac yn ychwanegol at unrhyw ganlyniad ffurfiol, i ddioddefwyr unrhyw fath o drosedd.

# Gwerthoedd

Er mwyn gwireddu fy ngweledigaeth sef 'Cadw cymunedau Dyfed-Powys yn ddiogel', byddaf yn annog yr heddlu a'r systemau cyfiawnder troseddol i weithio'n effeithiol ac effeithlon drwy:




**Gydweithio**



**Bod yn atebol**



**Bod yn gynaliadwy**




**Ymgysylltu'n eang**

# Cydweithio

## Mae sefydliadau a chymunedau yn ardal Heddlu Dyfed-Powys yn cydweithio, a chydbwysir ein hanghenion a'n nodau â rhai cyrff cyhoeddus eraill.

Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Parhau i lobïo Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol am ddull mwy integredig o wella arweinyddiaeth a darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer gwasanaethau'r rheng flaen i'w galluogi i ymateb yn well i unigolion ag anghenion iechyd meddwl.
- Gweithio'n agos gyda busnesau lleol i ddeall trais a cham-drin tuag at staff mewn siopau a sicrhau bod yr heddlu yn ymateb mewn modd sy'n addas.
- Cymeradwyo Addewid Dioddefwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a hwyluso apeliadau sbarduno cymunedol.
- Cefnogi gwaith Canolfan Seibergadernid Cymru i wella amddiffyniad ein busnesau a sefydliadau'r trydydd sector rhag bygythiad seiberdroseddu.
- Gweithio gyda chydweithwyr drwy strwythurau Plismona yng Nghymru a Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, i archwilio a gwerthuso yn gyson gyfleoedd newydd i gydweithio gyda heddluoedd eraill yng Nghymru a'r DU.
- Cyfrannu, drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogelach, at oruchwyliaeth a chyfeiriad cenedlaethol rhaglen waith a rennir gan Lywodraeth Leol, Plismona yng Nghymru a phartneriaid eraill. Y nod fydd sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar y cyd â'n gilydd, gan alluogi gweithio ar sail partneriaethau lleol i gefnogi cymunedau diogel, cryf a hyderus.
- Gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hyrwyddo a datblygu Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol Cymru sy'n cefnogi gweithgarwch a chamau gweithredu lleol.
- Ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phartneriaid allweddol eraill i sicrhau bod ein cyfrifoldebau ym maes diogelwch cymunedol yn ymateb i anghenion a disgwyliadau ein dinasyddion a'n cymunedau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Dylanwadu'n weithredol ar weithgareddau Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ac ymgysylltu â nhw.
- Parhau i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn bodloni gofynion y Gofyniad Plismona Strategol.



# Bod yn Atebol

## Rydym yn dryloyw ac yn atebol i bobl ardal Dyfed-Powys.

Nododd Syr Robert Peel, wrth ddylunio heddlu moesegol, un o'i egwyddorion fel a ganlyn,

> *"cydnabod bob amser fod pŵer yr heddlu i gyflawni eu swyddogaethau a'u dyletswyddau yn dibynnu ar gymeradwyaeth y cyhoedd i'w bodolaeth, eu gweithredoedd a'u hymddygiad, ac ar eu gallu i sicrhau a chynnal parch y cyhoedd."*

Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Gweithio i ddeall a mynd i'r afael â gwahaniaethau yn ffydd y cyhoedd yn yr heddlu ymysg grwpiau oedran, hiliau a rhywiau gwahanol, gan gynnwys oedolion ifanc. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithlonrwydd ein mecanweithiau craffu i helpu i adeiladu ffydd a hyder, gan gynnwys sicrhau bod oedolion ifanc yn medru cymryd rhan ystyrlon wrth ddwyn yr heddlu i gyfrif.
- Cefnogi'r cyhoedd i wneud penderfyniadau gwybodus a phriodol wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.
- Rhoi mwy o gyfleoedd i gysylltu â chymunedau, gwrando arnynt ac ymgysylltu â nhw, gan gynnwys ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu ar y cyd â Phanel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.
- Sicrhau bod safbwyntiau pobl fel aelodau o'r gymuned a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol (fel dioddefwyr, troseddwyr, neu'r ddau) yn cael eu hadlewyrchu yn ein cynlluniau ymgynghori.
- Drwy fy Fforwm Ieuenctid a'm Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, rhoi cyfleoedd i'r rhai sydd â phrofiad personol gymryd rhan mewn trafodaethau lleol am flaenoriaethau cyfiawnder troseddol a chynllunio gwasanaethau ar y cyd lle bo'n briodol.
- Sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn asesu perfformiad eu gwasanaethau plismona a throseddu.
- Cynnwys fy ngwirfoddolwyr wrth baratoi cyhoeddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn glir ac yn ddealladwy i'r cyhoedd.
- Bod yn atebol i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, gan roi ystyriaeth ddyledus i'w hargymhellion imi ynglŷn â'm penderfyniadau allweddol.
- Gwneud defnydd llawn o'n Cyd-bwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Ymgynghorol Comisiynu o ran sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl a minnau drefniadau llywodraethu, gweithdrefnau ariannol a rheoliadau busnes cadarn yn eu lle.
- Parhau i weithio gyda gwirfoddolwyr a phaneli sy'n fy nghefnogi i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau plismona effeithiol, effeithlon a chyfreithlon, gan gynnwys:
  - Y Panel Sicrhau Ansawdd, sy'n craffu ar ansawdd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd mewn modd tryloyw ac annibynnol ar ran y cymunedau yn ardal Dyfed-Powys;
  - Y Panel Craffu ar Waredigadau y Tu Allan i'r Llys, lle mae partneriaid o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn dod at ei gilydd i asesu'n annibynnol y defnydd a wneir o waredigadau y tu allan i'r llys (megis rhybuddion, datrysiadau cymunedol a gwaredigadau adferol ieuenctid) gan Heddlu Dyfed-Powys, yn ogystal â chraffu arnynt a sicrhau eu hansawdd.
  - Ymwelwyr Lleyg er Lles Anifeiliaid, sef gwirfoddolwyr sy'n edrych ar amodau cŵn Heddlu Dyfed-Powys a sut y gofelir amdanynt.
  - Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, sef gwirfoddolwyr sy'n ymweld â dalfeydd yr heddlu er mwyn edrych ar les carcharorion a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal.
- Ymateb yn gymesur i unrhyw adroddiadau annibynnol a gyflwynir i Heddlu Dyfed-Powys gan Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) yn ogystal ag unrhyw gyfarwyddyd a datblygiadau dysgu gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

# Bod yn Gynaliadwy

Rydym yn cynnal ac yn gwella amgylcheddau cymdeithasol, sy'n cefnogi cadernid economaidd ac ecolegol, sy'n gyson ag amgylcheddau naturiol bioamrywiol ac ecosystemau iach. Mae hyn yn cefnogi'n hymrwymiad a'r gallu i addasu i newid, gan gydbwyso anghenion tymor byr â'r angen ar gyfer diogelu ein dyfodol.

Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Lobïo am setliad ariannu teg tymor hirach ar gyfer heddluoedd Cymru drwy ddadlau'r achos o blaid Cymru'n derbyn dyraniad teg o'r arian sy'n deillio o unrhyw Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, unrhyw adolygiad o fformiwla ariannu'r heddlu, neu unrhyw brosesau perthnasol eraill lle caiff adnoddau eu dyrannu.
- Datblygu a mabwysiadu diwylliant arloesol o ran cynaliadwyedd drwy leihau ein hôl troed carbon a sicrhau bod ein hystad, y fflyd cerbydau, cyflenwadau, gweithdrefnau a phrosesau gwasanaeth yn amgylcheddol gyfrifol.
- Sicrhau stiwardiaeth effeithiol o ystad yr heddlu.
- Sicrhau effeithlonrwydd drwy gydweithio a dysgu.
- Annog a galluogi gwaith gyda'r Coleg Plismona, y gwasanaeth heddlu ehangach, partneriaid a'r byd addysg i ddynodi a rhannu unrhyw beth a ddysgir am fygythiadau cyfredol.
- Cefnogi buddsoddi mewn gallu dadansoddol, prosiectau datgarboneiddio, datblygiadau TG a rhaglenni moderneiddio arloesol.
- Annog gweithio mewn partneriaeth i ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd, o ran cynaliadwyedd a pholisïau amgylcheddol gyfeillgar, ac o ran sicrhau bod gennym y gallu a'r capasiti ar y cyd â'n gilydd i ddelio ag effaith Newid yn yr Hinsawdd, megis llifogydd a digwyddiadau eraill o ganlyniad i dywydd garw.



# Ymgysylltu'n Eang

## Mae pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ardal Heddlu Dyfed-Powys yn gysylltiedig â phenderfyniadau sy'n bwysig iddynt.

Mae'n Egwyddor Peelaidd i


> *"gydnabod bob amser bod ennyn parch a chymeradwyaeth y cyhoedd yn golygu hefyd fod angen sicrhau eu cydweithrediad parod yn y dasg o sicrhau y glynir wrth y gyfraith."*

> *"Cymru yw'r unig genedl yn y DU lle mae cyfran uwch o'r cyhoedd yn credu bod gan bobl gyfleoedd cyfartal i ddatblygu mewn bywyd.[2]"*

Rwyf am inni sicrhau bod y gred honno'n cael ei gwireddu.

Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Annog creu gwasanaethau sy'n sensitif tuag at hil a diwylliant ac sy'n briodol ar gyfer yr oedran dan sylw.
- Cynyddu cyfleoedd i bobl o gefndiroedd amrywiol gael eu clywed, rhannu eu barn a siapio polisi.
- Cefnogi'r Prif Gwnstabl i fuddsoddi mewn cynyddu gallu Heddlu Dyfed-Powys i ddarparu gwasanaethau plismona drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Hyrwyddo a datblygu dulliau o wella gallu cymunedau i fod â rhan mewn plismona.
- Lobïo dros drefniadau hirdymor am gyllid i Gymru ar gyfer prentisiaethau o fewn yr heddlu.
- Gweithio tuag at y Safon Cydraddoldeb Cenedlaethol a chymeradwyo'r addewid cydraddoldeb hiliol.
- Sicrhau bod ein Tîm Ymgysylltu yn derbyn y cymorth a'r adnoddau cywir i fod yn effeithiol, ac yn gweithio yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.
- Parhau i weithio gyda Heddlu Dyfed-Powys er mwyn hyrwyddo rolau gwirfoddoli, megis yr Heddlu Gwirfoddol, Cadetiaid yr Heddlu, gwasanaethau'r Caplan, rolau darparu cymorth i staff yr heddlu, fforymau ymgysylltu a phaneli craffu.



[2] Plismona Deloitte 4.0

# Adnoddau

Rwy'n atebol i chi yn y pen draw am reoli cronfa'r heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl a minnau'n gydgyfrifol am reoli'r gyllideb blismona yn effeithiol ac am sicrhau gwerth am arian ar eich rhan.

Mae trigolion ardal Heddlu Dyfed-Powys yn disgwyl i'r gwasanaeth (1) fuddsoddi mewn technoleg newydd i fod yn fwy effeithlon, (2) moderneiddio gorsafoedd heddlu i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol a (3) buddsoddi yn yr economi gylchol.

Mae ein gwerth cymdeithasol fel sefydliad yn cael ei fesur yn ôl ein cyfraniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i ardal Dyfed-Powys. Dylai ein hôl troed ariannol fel sefydliad ariannu system o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol sy'n diwallu ein hanghenion o ran y gwasanaethau sydd eu hangen arnom a hefyd ein hanghenion corfforol. Drwy wneud hynny, fodd bynnag, dylai hefyd gynyddu swyddi lleol, lleihau troseddu, cefnogi'r rhai sy'n agored i niwed, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chwistrellu arian i'r economi leol.

Mae fy Nhîm Ystadau eisoes wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Gwella perfformiad amgylcheddol/ cynaliadwyedd yr ystad.
- Cynnig sicrwydd o ran costau a rhagweld ac adrodd yn effeithiol.
- Cyflwyno adroddiadau ar gyfalaf a refeniw a stiwardiaeth effeithiol.
- Ymdrin â'r pwysau o ran cyfalaf a'r buddsoddiad fydd yn ofynnol ar yr ystad yn y dyfodol.
- Cyflwyno ystad sy'n addas at y diben.

Yn ogystal â hyn, bydd yr holl ymarferion caffael sy'n cael eu cynnal gan yr Heddlu neu fy swyddfa yn cynnwys ffocws ar werth cymdeithasol, gyda dangosyddion allweddol a fydd yn caniatáu imi ddwyn y darparwyr llwyddiannus i gyfrif.

Un o'm cyfrifoldebau allweddol fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw gosod y praesept a chyllideb yr Heddlu bob blwyddyn.

Y dreth a godir drwy drethdalwyr lleol (cyfran o'ch treth gyngor) er mwyn cefnogi gwasanaethau plismona yw'r praesept. Wrth wneud hynny, byddaf yn ystyried nifer o ffactorau gwahanol, gan gynnwys: gofynion y Prif Gwnstabl o ran adnoddau yn y dyfodol, lefel y cronfeydd wrth gefn, adborth gan breswylwyr ardal Dyfed-Powys, a chynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn isadeiledd yn y dyfodol.

Ar gyfer 2021/22 gosodais braesept o £275.56 (fesul eiddo Band D) sy'n golygu cyfanswm o £62.307 miliwn o'r praesept. Bydd hyn yn cyfrannu at greu cyfanswm o gyllid canolog a lleol o £119.834 miliwn, sef cynnydd o 6.13% ar lefelau cyllid yn 2020/21. Mae hyn yn golygu, unwaith eto, mai Dyfed-Powys sydd â'r praesept isaf a gasglwyd drwy'r dreth gyngor yng Nghymru. Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith hefyd mai yn ardal Dyfed-Powys y cafwyd y pumed cynnydd isaf o'r praesept a gasglwyd drwy'r dreth gyngor ledled Cymru a Lloegr ers 2012/13.




| Cyllideb Refeniw | 2021/22 (£m) |
|---|---|
| Cyllidebau Net SCHTh | 6.214 |
| Cyllidebau Net yr Heddlu | 115.246 |
| Cyfraniadau Net o'r Cronfeydd Wrth Gefn | (1.626) |
| **Gofyniad cyllideb (yn cynnwys tâl a phensiynau 85.10%)** | **119.834** |
| Grant yr Heddlu (Swyddfa Gartref) | (44.497) |
| Cyfraddau Annomestig wedi'u Ailddosbarthu (Llywodraeth Cymru) | (9.212) |
| Grant Cymorth Refeniw (Llywodraeth Cymru) | (3.818) |
| Praesept Treth y Cyngor | (62.307) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(119.834)** |

Mae amryw o faterion a heriau ariannol cymhleth wedi'u nodi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Mae'r Cynllun hwn a'i strategaethau ategol yn cael eu diweddaru'n flynyddol.

Mae'r Llu'n parhau i ddod o hyd i fesurau effeithlonrwydd ac mae cynllun yn ei le i leihau costau sy'n anelu at fanteisio ar fentrau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r cynllun hwn yn rhagdybio ail-lunio'r gweithlu a'r sylfaen gostau trwy gyflwyno mesurau sicrhau effeithlonrwydd a gwella cynhyrchedd, ond cydnabyddir bod angen i hyn barhau i alluogi'r Prif Gwnstabl a minnau osod Cynllun Ariannol Tymor Canolig cynaliadwy wrth amddiffyn safon y gwasanaeth ar gyfer cymunedau Dyfed-Powys.

Rwyf wedi gosod rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22 i 2025/26 o £86.803 miliwn sy'n cynnwys buddsoddiad mewn seilwaith Ystadau, Fflyd a TGCh ar gyfer prosiectau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r buddsoddiad hwn wedi'i neilltuo ar gyfer blaenoriaethau strategol, gwariant na ellir ei osgoi, meysydd sy'n lleihau gwariant refeniw yn y dyfodol ac sy'n cydnabod yr angen i fod â chyfarpar digonol i wynebu gofynion newidiol plismona'r unfed ganrif ar hugain.

Rwy'n ystyried fy Strategaeth Gyfalaf yn flynyddol a hefyd yn asesu fy ngofynion benthyca yn flynyddol i sicrhau eu bod yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar fy ngwefan.



Rwy'n ystyried ac yn cyhoeddi Strategaeth Wrth Gefn flynyddol sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'i asesiad o'r risg a wynebir a mesurau lliniaru. Mae'r Strategaeth Wrth Gefn yn ystyried digonolrwydd cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac yn ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r ystyriaethau hyn hefyd yn cyd-fynd â chanllawiau'r Swyddfa Gartref ar gronfeydd wrth gefn yr heddlu.

Mae'r Heddlu'n cyflwyno Datganiadau Rheoli'r Heddlu yn flynyddol i Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi gan nodi'n gynhwysfawr y prif heriau gweithredol a chymorth busnes y mae'n eu hwynebu. Mae hyn yn ystyried gallu a chapasiti'r Heddlu yng nghyd-destun delio â'r galw cyfredol ac yn y dyfodol. I grynhoi, mae'r ddogfen yn tynnu sylw at heriau sydd i raddau helaeth yn adlewyrchu'r meysydd hynny a nodwyd eisoes yn y gofrestr risg. Gwnaed ymdrechion sylweddol i gryfhau'r ffocws a'r cysylltiad rhwng System Reoli'r Llu a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac mae hyn yn parhau o ddifrif.

Mae ansicrwydd o hyd mewn perthynas â setliadau yn y dyfodol. Mae goblygiadau ariannol y pandemig COVID-19 ar yr economi ehangach yn anferth ac mae'r Canghellor eisoes wedi amlinellu rhai o'r dewisiadau anodd sydd o'n blaenau.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi nodi y bydd gwaith ar yr Adolygiad ar Ariannu ar sail Fformiwla yn ailddechrau. Canlyniad yr adolygiad diwethaf, na chafodd ei gyflwyno, fyddai £8 miliwn yn llai i Heddlu Dyfed-Powys.

# Y gwasanaethau rwy'n eu comisiynu

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) yn amlinellu nifer o ddyletswyddau allweddol ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Yn ogystal â'u rôl plismona craidd, mae cylch gwaith Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cynnwys lleihau trosedd ac anhrefn, ac mae ganddynt bwerau comisiynu ac arian i'w galluogi i wneud hyn. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Gomisiynwyr roi grantiau i unrhyw sefydliad neu gorff sydd yn gallu cyflwyno eu blaenoriaethau diogelwch cymunedol.


Dylai'r gwaith o gomisiynu ganolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau am y gwerth gorau, a sicrhau bod llwyddiant y gwasanaethau hyn i fynd i'r afael ag anghenion troseddwyr neu ddioddefwyr trosedd yn cael ei adolygu'n barhaus.

Mae fy Strategaeth Gomisiynu'n amlinellu'n fanwl sut y byddaf yn mynd ati i gomisiynu ac ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys yr egwyddorion allweddol, llwybrau comisiynu posibl, trefniadau monitro a llywodraethu, rheoli risg, archwilio a dyrannu cyllideb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi Fframwaith Comisiynu blynyddol sy'n cyd-redeg yn uniongyrchol â'r Cynllun hwn â'm holl fwriadau comisiynu, ynghyd â'r gyllideb, sy'n gysylltiedig â'm blaenoriaethau strategol. Mae'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun hwn yn sail i fy mhenderfyniadau o ran pa arian fydd yn cael ei ddarparu i'r heddlu a phartneriaid er mwyn lleihau trosedd ac anhrefn.

Bydd y gwaith o gomisiynu gwasanaethau yn mynd yn ei flaen drwy gydol oes fy Nghynllun er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hynny dal yn gyson â'm blaenoriaethau strategol.

Byddaf yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Sicrhau proses gynllunio agored a thryloyw sy'n dangos yn glir y rhesymau dros benderfyniadau.
- Sicrhau bod y broses gomisiynu a'r trefniadau monitro'n gymesur â chost y gwasanaeth neu'r gweithgaredd a ddarperir.
- Sicrhau gwerth am arian drwy weithio mewn partneriaeth ar flaenoriaethau cytûn a chanlyniadau cynaliadwy.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn sicrhau bod effaith yr arian sy'n cael ei wario'n cael ei fesur a'r gwerth yn cael ei asesu.
- Dyfarnu cytundebau tymor canolig a thymor hir er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir.



Yn ystod fy nhymor cyntaf, sefydlais Fwrdd Ymgynghorol Comisiynu, sy'n fy nghefnogi drwy weithredu fel y corff adolygu mewn perthynas â'r gwaith o ddyfarnu arian grant a thendro gwasanaethau. Mae rôl y Bwrdd yn cynnwys sicrhau bod elw ar fuddsoddiadau a gwerthuso effaith gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar graffu ac yn fy nghefnogi i ddwyn darparwyr gwasanaeth i gyfrif.

Mae nifer o brosesau yn eu lle sy'n monitro gwerth a chanlyniadau'r gwasanaethau rwy'n eu hariannu. I ategu hyn, cynhelir archwiliad desg bob blwyddyn ar gyfer pob gwasanaeth a gomisiynir, ynghyd ag archwiliad manylach ar gyfer y gwasanaethau hynny lle mae cytundebau ar fin dod i ben fel y gellir defnyddio'r canlyniadau wrth gynllunio i ailgomisiynu'r gwasanaethau.

Mae'r gyllideb gomisiynu gyfan yn cynnwys grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr ynghyd â dyraniad o'm cyllid craidd. Pennir Grant Dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unol â fformiwla ariannu sy'n seiliedig ar boblogaeth. Yn ogystal â hyn, ceisiaf sicrhau cyllid ychwanegol yn seiliedig ar dystiolaeth o angen, er enghraifft i gynorthwyo gyda'r galw a'r pwysau cynyddol a wynebir gan ddarparwyr gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ystod pandemig COVID-19.


Byddaf hefyd yn sicrhau bod arian ar gael ar gyfer cymunedau, partneriaid ac elusennau drwy grantiau amrywiol i gefnogi prosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni fy mlaenoriaethau ac yn gwella ansawdd bywyd ein preswylwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau rwy'n eu comisiynu ar fy ngwefan.



# Sut allwch chi fy nghefnogi i wireddu'r Cynllun hwn

Mae gan fy ngwirfoddolwyr ran bwysig i'w chwarae wrth fy helpu i wireddu fy ngweledigaeth. Maen nhw'n fy nghefnogi i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu'n broffesiynol, yn gyfreithlon ac yn foesegol drwy adolygu gwasanaethau a ddarperir gan yr Heddlu. Caiff pob gwirfoddolwr hyfforddiant wrth ei waith, cynllun cyfeillio, treuliau a phwynt cyswllt yn fy swyddfa. Maen nhw hefyd yn derbyn credydau amser o dan y cynllun Tempo. Gellir gwario'r credydau hyn ar amryw o weithgareddau, gwasanaethau a chynnyrch yn wobr am eu hymrwymiad.



## Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Mae'n ofyniad statudol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu gael Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Mae fy Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, sydd wedi derbyn achrediad aur, yn rhoi sicrwydd annibynnol imi fod carcharorion yn cael eu trin yn briodol a theg. Maen nhw'n ymweld â gorsaf heddlu lleol mewn parau, yn ddirybudd, ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos i edrych ar les carcharorion yn y ddalfa, a'r amodau lle cânt eu cadw. Mae fy nghynllun hefyd yn un o lond llaw o gynlluniau yng Nghymru a Lloegr sy'n adolygu'n rheolaidd gofnodion y ddalfa ar gyfer carcharorion agored i niwed. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Ymwelwyr Annibynnol ystyried taith gyfan y carcharor trwy'r ddalfa.

Os nad ydych chi'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol, yn 18 oed neu'n hŷn, yn byw neu'n gweithio yn ardal Dyfed-Powys, ac mae gennych ddiddordeb mewn cydraddoldeb a hawliau dynol, gallai bod yn Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd fod yn rôl wirfoddol ddelfrydol i chi.



## Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid

Mae aelodau annibynnol o'r gymuned leol yn edrych ar les cŵn Heddlu Dyfed-Powys a'r amodau lle cânt eu cadw, eu hyfforddi, eu cludo a'u lleoli. Maen nhw'n rhoi hyder i mi, a'r cyhoedd, fod cŵn yr heddlu'n derbyn gofal ac yn cael eu trin mewn modd dyngarol, moesegol a thryloyw.

Mae'n rhaid i Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid fod yn 18 oed neu'n hŷn ac mae'n rhaid eu bod yn byw neu'n gweithio yn ardal Dyfed-Powys. Rhaid hefyd fod ganddynt wybodaeth gadarn am faterion yn ymwneud â lles anifeiliaid.



## Panel Sicrhau Ansawdd

Mae'r Panel, sy'n cynnwys grŵp o hyd at 15 preswylydd gwirfoddol, yn cwrdd bob yn ail fis er mwyn adolygu cofnodion wedi'u hapsamplu o gysylltiadau rhwng y cyhoedd a'r heddlu, gan gynnwys: achosion stopio a chwilio, digwyddiadau lle mae grym wedi'i ddefnyddio, troseddau casineb, trin galwadau a thrin cwynion. Mae'r Panel yn cynnig golwg unigryw o safbwynt y lleygwr ar ansawdd y cyswllt rhwng yr heddlu a'r cyhoedd.

Mae croeso i oedolion 18 oed neu'n hŷn sy'n byw neu'n gweithio yn ardal Dyfed-Powys ac sydd ddim yn gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol wneud cais am le ar fy Mhanel Sicrhau Ansawdd.



## Llysgenhadon Ifanc

Mae fy Fforwm Ieuenctid yn cynnwys Llysgenhadon 11–18 oed ac yn cynrychioli ystod o sefydliadau a grwpiau ieuenctid cymunedol o bob cwr o ardal Dyfed-Powys. Mae'r Fforwm yn fy helpu i greu perthynas â fforymau, cynghorau ieuenctid a grwpiau ieuenctid sy'n bodoli eisoes ar draws y rhanbarth, llawer ohonynt eisoes yn cael eu cynrychioli ar fy Fforwm, fel y gallaf ddefnyddio barn pobl ifanc yn sail i fy mhenderfyniadau mewn perthynas â phlismona a throseddu.

Yr wyf bob amser yn croesawu pobl ifanc 11-18 oed sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys neu Sir Benfro i fod yn un o'm Llysgenhadon.



## Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr

Mae'r ychwanegiad diweddaraf i'm grwpiau gwirfoddol, sef fy Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, yn cynnwys dros 80 o ddioddefwyr trosedd o bob cwr o ardal Heddlu Dyfed-Powys. Gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a phartneriaid eraill, mae Aelodau'r Fforwm yn fy nghefnogi i roi lle canolog i ddioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol. Mae eu barn yn fy helpu i sicrhau bod y rhai sydd â phrofiad personol yn dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr trosedd a chraffu arnynt.


Anogir unrhyw un sydd wedi dioddef o drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ei hun (yn unol â'r diffiniad o dan y Cod Dioddefwyr), ac unigolion sydd wedi cefnogi rhywun agos sydd wedi dioddef o drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy'r broses, i ymuno â'r Fforwm.



# Cyd-destun

## Ein hardal

Ardal Heddlu Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cwmpasu dros ddau draean o dirwedd Cymru ac yn gyfrifol am blismona pedair ardal awdurdod lleol, sy'n cynnwys dau fwrdd iechyd, dau borthladd fferi ryngwladol, dau barc cenedlaethol a dros 8500 milltir o ffyrdd.




## Ein pobl

Yn ôl data'r Cyfrifiad diwethaf (2011), poblogaeth breswyl y pedair sir a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys oedd 515,114. Gwyn Prydeinig yw'r boblogaeth yn bennaf, gydag ychydig dros 2% o'r boblogaeth yn perthyn i grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn dal i anelu at wella amrywiaeth ei weithlu er mwyn sicrhau ein bod ni'n cynrychioli'n well y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Erbyn diwedd mis Mawrth 2021, nododd 16 (1.3%) o'n swyddogion a 6 (0.64%) o'n haelodau staff nad oeddent yn wyn eu croen. Mae 47% o gyfanswm y gweithlu yn fenywod, ond mae menywod yn cael eu cyflogi'n bennaf fel staff yr heddlu (62%, o'i gymharu â 35% o swyddogion).

Mae 32% o'n cymunedau'n medru siarad Cymraeg; 18.6% ym Mhowys, 47.4% yng Ngheredigion, 43.9% yn Sir Gaerfyrddin a 19.3% yn Sir Benfro.



### Siaradwyr Cymraeg yn Dyfed-Powys

- 18.6% Powys
- 47.4% Ceredigion
- 43.9% Sir Gaerfyrddin
- 19.3% Sir Benfro



### Siaradwyr Cymraeg o blith gweithlu Heddlu Dyfed-Powys


- 20% Cymraeg rhugl
- 29% Cymraeg lefel Sylfaenol
- 32% Cymraeg lefel sgwrsio
- 19% Ddim yn siarad Cymraeg

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21, roedd 1,860 (81%) o weithlu Heddlu Dyfed-Powys yn medru siarad Cymraeg hyd at lefel sylfaenol. Roedd 32% yn medru cynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg, ac roedd 20% yn medru sgwrsio'n rhugl yn Gymraeg.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwasanaethu poblogaeth sy'n heneiddio. Yn ôl data'r Cyfrifiad diwethaf (2011), mae bron i hanner cyfanswm y boblogaeth breswyl yn 45 oed ac yn hŷn, gyda 22% o'r boblogaeth breswyl dros 65 oed.

Ar hyn o bryd, mae gan Heddlu Dyfed-Powys 1,194 o Swyddogion Heddlu, 794 aelod Staff Heddlu, 85 o Gwnstabliaid Gwirfoddol, 144 o Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu a 45 Gwirfoddolwr.

Mae'r niferoedd hyn yn parhau i dyfu wrth i'r Heddlu gychwyn Ymgyrch Uplift ar ôl degawd o lymder. Ymgyrch Uplift yw ymateb y gwasanaeth heddlu i darged Llywodraeth y DU, sef recriwtio 20,000 o Swyddogion Heddlu ychwanegol erbyn 2023, a oedd yn cyfateb i 42 Swyddog ychwanegol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn 2020/21.



### Gweithlu Heddlu Dyfed-Powys

- 1194 Swyddogion Heddlu
- 794 Aelodau Staff Heddlu
- 144 Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu
- Cwnstabliaid Gwirfoddol

## Rolau a chyfrifoldebau

Fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mae gennyf nifer o ddyletswyddau statudol, fel yr amlinellir isod:

- Gosod y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer yr Heddlu.
- Cynrychioli ac ymgysylltu â chymunedau a gweithredu fel llais y cyhoedd ar faterion plismona a throseddu.
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol ehangach yn effeithiol ac yn effeithlon wrth gadw pobl yn ddiogel, cefnogi dioddefwyr a dod â phobl gerbron llys.
- Comisiynu gwasanaethau i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi dioddefwyr a phobl eraill sy'n agored i niwed.
- Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau heddlu yn effeithiol, yn ogystal â chyhoeddi gwybodaeth i'ch galluogi i asesu fy mherfformiad i a pherfformiad Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys.
- Penodi, ac os oes angen, diswyddo'r Prif Gwnstabl.
- Ymdrin â chwynion swyddogol yn erbyn y Prif Gwnstabl (blaenorol neu gyfredol).
- Gosod praesept blynyddol yr heddlu a chyllideb yr heddlu.
- Cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu ac Adroddiad Blynyddol.
- Gweithio'n agos â'r Panel Heddlu a Throseddu i'w caniatáu i gefnogi a chraffu'n effeithiol ar waith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.
- Mae Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau bod y cyhoedd yn ymddiried ynom i weithio gyda'n gilydd fel un, gan gydlynu'n ffordd o ymdrin â'r system o orfodi'r gyfraith. Fel rhan o hyn, mae'n ofynnol i mi ddarparu datganiad blynyddol ar berfformiad Heddlu Dyfed-Powys yn erbyn mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol Llywodraeth y DU.

Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am ddiogelu ein cymunedau drwy ddulliau plismona effeithlon, effeithiol sy'n ymateb i'r angen. Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol, rheoli adnoddau a gwariant yr heddlu, ac ymchwilio i gwynion a materion ymddygiad yn erbyn swyddogion (islaw rheng y Prif Gwnstabl) a staff yr heddlu.

Mae'r Panel Heddlu a Throseddu yn banel annibynnol wedi ei ffurfio o aelodau a enwebwyd gan awdurdodau lleol ac aelodau annibynnol.

Bydd y Panel yn:

- Craffu ar fy mhenderfyniadau ar ran y cyhoedd.
- Fy nghefnogi i weithredu fy swyddogaethau'n effeithiol.
- Adolygu a gwneud argymhellion ar ddrafftiau Cynllun Heddlu a Throseddu ac Adroddiad Blynyddol.
- Adolygu a gwneud argymhellion ar gynigion mewn perthynas â'r praesept heddlu a'r gyllideb ddrafft flynyddol.
- Ymdrin â chwynion yn fy erbyn a'u datrys.
- Cynnal gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer penodiadau arfaethedig swyddogion statudol y Prif Gwnstabl a minnau.



# Ynghylch y Cynllun hwn

Wrth ffurfio'r Cynllun hwn, rwyf wedi ystyried tirwedd genedlaethol (Cymru a'r DU yn ehangach) plismona a throseddu drwy wneud gwaith ymchwil ac ymgynghori manwl, gan gynnwys:

- Blaenoriaethau Llywodraethau Cymru a'r DU.
- Cynllun Blynyddol yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol.
- Ffyrdd o Weithio a Nodau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Ystyried dogfennau plismona cenedlaethol (Cymru a'r DU).
- Fframwaith asesu Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi.
- Craffu ar Felinau Trafod plismona ac arferion da o feysydd eraill.

Rwyf hefyd wedi ystyried blaenoriaethau, adnoddau ac anghenion lleol, gan gynnwys:

- Adborth gan y cyhoedd.
- Dogfennau strategol allweddol Heddlu Dyfed-Powys.
- Blaenoriaethau partneriaid lleol, gan gynnwys rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Cynllunio Ardal, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel-Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Cynhaliodd fy swyddfa ymgynghoriad manwl i gasglu gwybodaeth i'w defnyddio'n sail i fy mlaenoriaethau, gan gynnwys:

- Preswylwyr a busnesau o fewn ardal Dyfed-Powys drwy'r holiadur praesept blynyddol ym mis Rhagfyr 2020.
- Detholiad o uwch reolwyr a rheolwyr canol o fewn Heddlu Dyfed-Powys, drwy weithdai, gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Tri Gorwel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Grwpiau lleiafrifol sydd â llai o lais drwy sesiynau a hwyluswyd.
- Partneriaid a rhanddeiliaid allweddol drwy wahoddiad personol i ddefnyddio pecyn arweiniad i ymgynghoriad.
- Y cyhoedd yn ehangach drwy arolwg ar-lein a chopi caled a hyrwyddwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wasg leol.

Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain i nodi fy ngweledigaeth, blaenoriaethau a gwerthoedd ar gyfer plismona a throseddu ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys ar gyfer y pedair blynedd nesaf:



# Fy Ngweledigaeth

- Cymunedau Diogel
- Gwasanaethau hygyrch
- Dull Iechyd Cyhoeddus
- Diwallu anghenion cymunedau
- Ymgysylltu gyda'r cyhoedd


## Blaenoriaeth 1:
Cefnogi Dioddefwyr

## Blaenoriaeth 2:
Atal Niwed

## Blaenoriaeth 3:
Sicrhau System Gyfiawnder fwy effeithiol

# Gwerthoedd

- Cydweithio
- Bod yn atebol
- Bod yn gynaliadwy
- Ymgysylltu'n eang



# Manylion Cyswllt

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF
01267 226440
opcc@dyfed-powys.police.uk
www.dyfedpowys-pcc.org.uk
@dpopcc